

Kate Biggs
Cyfarwyddwr, Polisi Cynnwys
E-bost: commercialrelicensing@ofcom.org.uk

Annwyl Syr/Fadam,

Hysbysiad o dan adran 216(3)(b) Deddf Cyfathrebiadau 2003 i drwyddedeion Channel 3 a Channel 5: terfyn amser ar gyfer ceisiadau am adnewyddu trwydded

Bydd y trwyddedau Channel 3 a'r drwydded Channel 5 yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

O dan ddarpariaethau adran 216(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf'), gall deiliad trwydded Channel 3 neu drwydded Channel 5 wneud cais i Ofcom am adnewyddu eu trwydded am gyfnod pellach o ddeng mlynedd.

O'r 16 o drwyddedau Channel 3, mae ITV plc yn dal y drwydded brecwast genedlaethol a 13 o'r 15 trwydded ranbarthol: Anglia ITV (Dwyrain Lloegr), Border ITV, Central ITV (Dwyrain, Gorllewin, De Canolbarth Lloegr), Granada ITV (Gogledd-orllewin Lloegr ac Ynys Manaw), London ITV (Llundain yn ystod yr wythnos), LWT (Llundain ar y penwythnos), Meridian ITV (De a De-ddwyrain Lloegr), Tyne Tees ITV (Gogledd-ddwyrain Lloegr), ITV yng Nghymru, Westcountry ITV (De-orllewin a Gorllewin Lloegr) a Yorkshire ITV (Swydd Efrog a Swydd Lincoln). Channel Television Limited sy'n dal y drwydded ranbarthol ar gyfer Channel Television (Ynysoedd y Sianel) ac UTV Limited sy'n dal y drwydded ranbarthol ar gyfer Ulster Television (Gogledd Iwerddon). ITV Breakfast Broadcasting sy'n dal y drwydded frecwast genedlaethol

Mae'r ddwy drwydded Channel 3 ranbarthol arall wedi'u dal gan: STV Central Limited (Canolbarth yr Alban) a STV North Limited (Gogledd yr Alban).

Mae trwydded Channel 5 wedi'i dal gan Channel 5 Broadcasting Limited.

Gellir gwneud y fath geisiadau am adnewyddu yn y cyfnod a ddechreuodd ar 1 Ionawr 2021 a chan ddod i ben ar ddyddiad yr ydym wedi'i gyfrifo yn unol ag adran 216(2)(b) y Ddeddf ('y dyddiad dod i ben'). Y dyddiad dod i ben, sef y terfyn amser ar gyfer ymgeisio am adnewyddu trwydded Channel 3 a Channel 5, yw **30 Ebrill 2023**.

Cais am adnewyddu trwydded

Dylai cais am adnewyddu trwydded gynnwys llythyr, wedi'i lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig y cwmni y delir y drwydded ganddo, sy'n nodi'r wybodaeth a ganlyn:

- cadarnhad bod y trwyddedai'n gwneud cais am adnewyddu deng mlynedd o'r drwydded berthnasol o dan adran 216 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Ynghyd â'r llythyr, bydd angen y canlynol arnom hefyd:

- Datganiad Gwreiddiol wedi'i lofnodi (mae Datganiad Gwreiddiol gwag yn cael ei anfon atoch trwy e-bost gyda'r llythyr hwn); a
- chyfrifon statudol llawn y cyfnod ariannol diwethaf sydd ar gael ar gyfer y cwmni sy'n dal y drwydded.

Cyn cymeradwyo cais am adnewyddu trwydded Channel 3 neu Channel 5, mae'n ofynnol i ni bennu'r telerau ariannol y caiff y drwydded ei hadnewyddu arnynt, yn unol ag adran 217 y Ddeddf. Yn achos trwydded Channel 3, mae'n ofynnol hefyd i ni bennu'r ardal y caiff y drwydded ei hadnewyddu ar ei chyfer, yn unol ag adran 216A y Ddeddf.

Byddwn yn anelu at bennu unrhyw gais am adnewyddu gan y trwyddedeion Channel 3 a'r trwyddedai Channel 5 mor fuan ag sy'n ymarferol, gan ddilyn y penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran p'un a fydd yn arfer ei bŵer gwneud gorchymyn o dan adran 230 y Ddeddf ai beidio.

Yn gywir,



Kate Biggs